

Cyngor Cymuned Y Fali Community Council

Clerc / Clerk Gwenda Owen
 Cyfeiriad/Address: Trigfa, Four Mile Bridge, LL65 2EZ
 Ffon/Tel: 01407 740046
 Eboast/Email: valleycommunitycouncil@gmail.com
 Safle we: <http://www.cyngor-cymuned-fali.cymru>
 Website: <http://www.valley-community-council.wales>

Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Parciau / Minutes of Parks Committee
20.10.19 6.00 yh/pm
Pafiliwn Parc Mwd Pavillion

1	Croeso	Welcome
2	<p>Presennol Cyng C Torr (Cadeirydd) Cyng K Taylor Cyng I Jones Cyng K Furlong</p> <p>Ymddiheuriadau Dim wedi ei derbyn</p>	<p>Present Coun C Torr (Chairman) Coun K Taylor Coun I Jones Coun K Furlong</p> <p>Apologies Nil received</p>
3	Cyllid – Cyllideb 2019/20	Finance – Budget 2019/20
3.1	<p>Parc Mwd - Gwariant at 30.09.19 a rhagamcaniad 31.03.20</p> <p>Adroddodd y clerwr ar wariant y gyllideb hyd at 30.09.19 ynghyd a rhagamcaniad hyd at 31.03.20. Yn gyffredinol 'roedd y gyllideb ar darged er fod cynydd yng nghost debyd uniongyrchol am drydan oherwydd biliau amcangyfrifedig.</p> <p>'Roedd amcangyfrifon wedi ei derbyn ar gyfer:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Trwsio'r ffens – Opsiwn 1 i drwsio gyda ffens o'r un math £1342+TAU 2. Rhigol ym mhen pella'r maes parcio i leihau pyllu ac efallai difrod i'r tarmac newydd o ganlyniad (£950 + TAU) 3. Gwaith traenu i leihau pyllau dwr ar y meysydd pe-ldroed (£1700 + TAU) <p>Rhagor o drafodaethau a chynigion wedi ei cofnodi dan 3.3 Gosod y gyllideb 2020/21</p>	<p>Parc Mwd - Expenditure at 30.09.19. and projected until 31.03.20</p> <p>The clerk reported on budget expenditure to 30.09.19 and projected expenditure to the end on March 2020. Overall the budget was on target although there had been an increase in the electricity direct debit cost due to estimated bills.</p> <p>Estimates had been received for the following:</p> <ol style="list-style-type: none"> 4. Repairs to fence – Option 1 repair with existing type of fence £1342 + VAT 5. A gully at the far end of the car park to reduce ponding and possible damage to the new tarmac. (£950 + VAT) 6. Drainage works to reduce water ponding on the football pitches. (£1700 plus VAT) <p>Further discussion and proposals minuted under 3.3 Setting the budget for 2020/21.</p>
3.2	<p>Y Gegin</p> <p>Adroddod y clerwr y byddai'r gegin yn cael ei gosod mis Rhagfyr.</p>	<p>Kitchen</p> <p>The clerk reported that the kitchen was to be fitted in December.</p>
3.3	<p>Gosod y Gyllideb 2020/21</p> <p>Pwysleisiodd y clerwr fod angen cynllunio ar gyfer gwaith byr-dymor a hir-dymor.</p> <p>Cysidrodd y pwyllgor gynllun tymor hir ar gyfer</p>	<p>Setting the Budget 2020/21</p> <p>The clerk emphasised the need to plan for both short term and long-term works.</p> <p>The Committee considered the long-term plan for</p>

Arwyddwyd/Signed Chairman

	<p>Parc Mwd a'i osod yn nhrefn blaenoriaeth.</p> <p>Gwaith chynnal a chadw, cynllun cyfalaf a Chlustnodi Arian Wrthgefn.</p> <ul style="list-style-type: none"> a) Meinciau x 2 (£1,200) b) Rhigol ym mhen pella'r maes parcio (£950 + TAU), gan byddai hyn yn lleihau a chadw y tarmac Newydd. c) Trwsio'r ffens. Clerc i drefnu cyfarfod gyda North Wales Fencing a chael amcangyfrif am ffens gryfach yn lle yr un sydd wedi ei difrodi tu ol i'r gol. d) Pyllu meysydd pel droed (£1,700 + VAT). Blaenoriaeth isel. e) Llwybrau – Derbynniwyd fod y llwybrau yn mynd yn fudr dros y gaeaf ond fod hyn yn arferol yn llawer o barciau. Gohurwyd penderfyniad hyd nes Cyllideb 2021/22. f) Y Plattform – Cytunnwyd i osod swm o £500 fel arian wrthgefn yn flynyddol tuag at gynllun tymor hir i ddelio gyda nhw – unai i'w gwneud yn saff neu ei tynnu. <p>Adroddodd y clerc efallai byddai modd gwneud Gwaith b) pe byddai unrhyw danwariant mewn maes arall yn ystod 2019/20 ond byddai yn haws gwneud penderfyniad oddeutu mis Rhagfyr.</p>	<p>Park Mwd and placed it in order of priority.</p> <p>On-going maintenance, capital plans and earmarked reserves</p> <ul style="list-style-type: none"> a) Benches x 2 (£1,200) b) Gully at the far end of the car park £950 + VAT) as this would preserve the newly laid tarmac. c) Repairs to fence. Clerk to arrange a meeting with North Wales Fencing and obtain a quote for a stronger fence to replace the currently damaged fence behind the goal. d) Ponding football pitches (£1,700 + VAT). This was of low priority. e) Paths – It was accepted that the paths become dirty over the Winter but that this was the norm in many parks. Decision deferred until 2021/22 budget. f) The Platforms – It was resolved to propose that a sum of £500 be set aside annually as “Earmarked Reserves” towards a long-term plan for dealing with the platform – either to make safe or to remove. <p>The clerk reported that it may be possible to undertake work b) and c) should there be an underspend in any other area during 2019/20 but it would be easier to make a decision around December.</p>
3.4	<p>Parc Chwarae - Gwariant at 30.09.19 a rhagamcaniad 31.03.20</p> <p>Adroddodd y clerc ar y gwariant hyd yn hyn, ynghyd a rhagamcaniad hyd at 31.03.20. 'Roedd yr offer chwarae l gael ei adnewyddu yn ystod yr wythnosau nesaf. Mae'r Gwaith yn hwyr oherwydd yr angen i archebu offer oedd angen ei gynhyrchu'n arbennig.</p>	<p>Play area - Expenditure at 30.09.19 and projected until 31.03.20</p> <p>The clerk reported on budget expenditure to date and projected expenditure to the end of March 2020. Repairs to the play equipment were due within the next couple of weeks, the delay being because the cradle seat had to be specially manufactured.</p>
3.5	<p>Gosod Cyllideb 2020/21</p> <p>Gwaith chynnal a chadw, cynllun cyfalaf a Chlustnodi Arian Wrthgefn.</p> <p>Cuttunnwyd i argymell y dylai swm o £2,500 gael ei roi ar un ochr yn flynyddol i dalu am gynnal yr offer chwarae ond fod swm o £500 ynghyd ac unrhyw dan-wariant o'r £2,500 yn cael ei glustnodi fel arian wrthgefn ar ddiwedd 2020/21 er mwyn cynllunio ar gyfer offer chwarae newydd oherwydd yr anhawster i gyrchu grantiau.</p>	<p>Setting the Budget 2020/21</p> <p>Ongoing maintenance, Capital Plans and Earmarked Reserves</p> <p>It was resolved that a recommendation that a sum of £2,500 be set aside annually for repairs to the play area but that a sum of £500 plus any unspent funds from the £2,500 be set aside as earmarked reserves at the end of 2020/1 in order to plan for replacement of the play equipment as grants were becoming increasingly difficult to access.</p>

4	Arolygiad iechyd a diogelwch flynyddol Parc Mwd gan gynnwys y pafiliwn. Adroddondd Cynghorydd Furlong fod yr adolygion yn cymeryd lle.	Annual health and safety inspection of Parc Mwd including the pavilion. Councillor Furlong reported that the review was on-going.
5	Unrhyw fater brys (i'w gytunno gyda'r cadeirydd ar ddechrau y cyfarfod.	Any urgent matter (to be agreed with the chair at the start of the meeting)
6	Dyddiad Cyfarfod nesaf i'w gadarnhau	Date of next meeting to be confirmed

Arwyddwyd/Signed Chairman